



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE  
**RHONDDA CYNON TAF**  
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Cyfeirnod		Dyddiad Derbyn	
-----------	--	-------------------	--

## **RhCT GYDA'N GILYDD TROSGLWYDDO ASED AU CYMUNEDOL A GWASANAETHAU**

### **FFURFLEN MYNEGI DIDDORDEB**

(Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol)  
Oes diddordeb gyda chi yn y canlynol?

**CAIS TROSGLWYDDO GWASANAETH**  
(Rhedeg gwasanaeth yn eich cymuned)

**CAIS TROSGLWYDDO ASED AU CYMUNEDOL**  
(Cymryd drosodd adeilad yn eich cymuned)

**CAIS I'R GRONFA ALLUOGI CYMUNEDOL**  
(Gwneud Cais Gronfa Alluogi Cymunedol y Cyngor)

Hoffech chi drafod eich cynigion cyn i chi lenwi'r Ffurflen Mynegi Diddordeb hon?

Croeso i chi gysylltu â Debra ar:  
01443 425715 neu 07880 044520

Byddwch gystal â llenwi ffurflen hon a'i dychwelyd at:

**Debra Hanney**  
**Swyddog Datblygu Asedau Cymunedol**  
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**  
**Ty Trevithick. Aberpennar, Abercynon, RCT, CF45 4UQ**

Byddwch gystal ag eostio copi o'r Mynegiad o Ddiddordeb yma i'r Swyddog  
Datblygu Cymunedol yn [RhCTgydangilydd@rctcbc.gov.uk](mailto:RhCTgydangilydd@rctcbc.gov.uk)

**Arweiniad ar gyfer llenwi ffurflen Mynegiad o Ddiddordeb**

Dogfen bwysig yw'r ffurflen Mynegiad o Ddiddordeb. Mae'n rhoi i'ch corff/grŵp y siawns i rannu syniad ar gyfer darparu gwasanaeth, neu reoli asedau cymunedol (adeiladau a thir) yn y gymuned. Pam mae'r gwasanaeth hwn yn bwysig yn eich cymuned leol a / neu ym mhob rhan o Rionda Cynon Taf? Pam byddai'ch corff neu grŵp yn hoffi'i redeg?

Bydd yr wybodaeth hon yn y ffurflen o gymorth i'r Cyngor wrth adnabod cynigion arfaethedig cymunedol da ar gyfer defnydd cynaliadwy o adeiladau neu dir cyhoeddus, neu gynnal gwasanaethau sydd ar hyn o bryd yn eiddo i Gyngor Rhondda Cynon Taf ac yn cael eu rheoli ganddo. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn ystyried trosglwyddo'r adeilad neu'r gwasanaeth i'ch corff neu grŵp, hynny yw, Trosglwyddiad Asedau Cymunedol (neu TAC).

Dyma nodau ac amcanion Trosglwyddiad Asedau Cymunedol o Gyngor Rhondda Cynon Taf:

- Annog cymunedau a grwpiau (boed yn newydd neu gyfredol) lleol i gael eu grymuso i ddod yn ddinasyddion gweithgar drwy ddarparu gwasanaethau a rheoli adeiladau lleol yn eu hardal leol.
- Meithrin gallu mewn cymunedau a hyrwyddo defnydd cyffredin o adeiladau cymunedol drwy ddull cydweithredol rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol, a chymunedol.
- Diogelu gwasanaethau at ddefnydd cymunedol a lles y gymuned.

Wedi i chi lenwi eich 'Mynegiad o Ddiddordeb', bydd y Cyngor yn ystyried y canlynol:

- A yw eich cynnig yn dangos unrhyw arbedion effeithlonrwydd posibl neu yn ychwanegu at werth y gwaith rheoli adeiladau a / neu wasanaethau'r Cyngor?
- A yw eich cynnig o fudd a lles i bobl Rhondda Cynon Taf?
- A yw eich cynnig yn cyfrannu i flaenoriaethau'r Cyngor?

(Dilynwch y cyswllt i Gynllun Integredig Sengl y Cyngor, sydd i'w gael ar <http://www.rctcbc.gov.uk/cy/cymunedauamaterionbywbywyd/mentrauachynlluniauynygyfundd/rhctgydangilydd/rhctgydangilydd.aspx>)

Os ydyn ni yn hoffi eich syniad, ac os gall eich Mynegiad o Ddiddordeb ddangos fod ganddynt y potensial i fodloni meini prawf y Cyngor, cewch eich gwahodd i gyflwyno Cynllun Busnes llawn wedi'i gostio. Caiff hwnnw ei ystyried yn ei dro ar gyfer ei gyflwyno fel Cais Trosglwyddo Ased a/neu Wasanaeth Cymunedol.

Yn yr un modd, os ydych yn dymuno gwneud cais i'r Gronfa Alluogi Cymunedol er mwyn cynorthwyo Trosglwyddiad Asedau Cymunedol, fe anfonir Ffurflen Gais ar wahân atoch i'w chwblhau.

Os yw'r Cyngor yn teimlo na all y cynnig fynd rhagddo, byddwn ni'n ysgrifennu atoch a rhoi gwybod i chi o'r rhesymau pam.

**Noder: Pwysig - cofiwch ddarllen.** Lle gaiff asedau neu wasanaethau'r Cyngor eu nodi fel rhai sy'n addas i Drosglwyddiad Asedau Cymunedol, rhoir cyhoeddusrwydd iddynt drwy wefan y Cyngor fel rhan o 'Ffenestr Cyfle' er mwyn caniatáu i gyrff a mudiadau eraill roi sylwadau a rhannu'u profiadau ac i rannu eu cynigion er mwyn hyrwyddo tegwch a gwella dulliau cydweithredol y broses.

Byddwn ni'n annog grwpiau i weithio gyda'i gilydd er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o adeiladau a gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gofalu cynaladwyedd tymor hir adeiladau, tir, a gwasanaethau. Mae'n bosibl y gallai fod cyfleoedd i gryfhau cynigion unigol drwy'r broses hon.

Gan hyn, caniateir trefnu fod y cyfryw wybodaeth o'r fath a gyflwynwch yn Adran 5 fod ar gael i gyrff a mudiadau eraill eu gweld fel rhan o bolisi 'Ffenestr Cyfle' y Cyngor,



Ticiwch os ydych yn gwrthwynebu i'r wybodaeth gael ei rhannu i unrhyw drydydd partïon.

**Ffurflen Mynegi a Datgan Diddordeb (MDD) i ac ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC),  
a Cheisiadau Cronfa Alluogi Cymunedol o Gyngor Rhondda Cynon Taf i Drydydd Parti.**

*Nodwch taw dim ond mynegiad o ddiddordeb yn unig yw hyn, ac nad yw llenwi'r ffurflen yn gyfystyr â ffurfio gwarant y trosglwyddir neu y prydlesir ased, nac y trosglwyddir gwasanaeth, neu ddyfarniad o'r Gronfa Alluogi Cymunedol.*

ENW'R PROSIECT ARFAETHEDIG		
<b>1. MANYLION CYSWLLT</b>		
Byddwch gystal â darparu manylion o'r person y dylid anfon yr holl ohebiaeth ato neu ati.		
Teitl ( <i>Mr, Mrs, Ms ac yn y blaen</i> )	Enw Cyntaf:	Cyfenw:
Swyddogaeth o fewn y corff:		
Cyfeiriad a Chôd Post:		
Ffôn:		
Ffôn Symudol:		
Ebost:		

2. MANYLION Y CORFF		
Byddwch gystal â darparu manylion y corff sy'n gwneud y cais hwn.		
Enw'r Corff		
Cyfeiriad a Chôd Post ( <i>os ydyn nhw'n wahanol i'r uchod</i> ):		
Ffôn ( <i>os ydy'n wahanol i'r uchod</i> ):		
Ffacs:		
Ebost ( <i>os ydy'n wahanol i'r uchod</i> ):		
Gwefan:		
Ai corff newydd ydych chi, neu'n un sy'n bodoli?	<ul style="list-style-type: none"><li>Newydd (ewch yn syth i Adran 5) <input type="checkbox"/></li><li>Un sy'n bodoli <input type="checkbox"/></li></ul>	
Ym mha flwyddyn y dechreuodd eich corff?		

3. STATWS Y CORFF, MUDIAD, SEFYDLIAD, NEU GRŴP
--

- |   |   |                                      |
|---|---|--------------------------------------|
| <input type="radio"/> Elusen Gofrestredig | <input type="radio"/> Grŵp Cymunedol          | <input type="radio"/> Consortiwm     |
| <input type="radio"/> Corff Gwirfoddol    | <input type="radio"/> Cyngor Tref neu Gymuned | <input type="radio"/> Corff Statudol |
| <input type="radio"/> Busnes Masnachol    | <input type="radio"/> Arall _____             |                                      |

**A oes gan eich corff un o'r canlynol ar hyn o bryd?** (Byddwn ni'n gofyn am y dogfennau hyn os ewch ymlaen i gam y Cynllun Busnes.)

<i>Eitem</i>	<i>Oes</i>	<i>Nac oes</i>
Cyfansoddiad, neu ddogfen lywodraethu		
Cylch Gorchwyl		
Corff/ Sefydliad - Cyfrid Banc neu Gymdeithas Adeiladu		

#### 4. DYWEDWCH WRTHYM YNGLŶN Â'CH CORFF (NEU GRŴP)

- a) Beth mae eich corff neu grŵp yn ei wneud ar hyn o bryd? (os taw grŵp newydd ydych chi, ewch yn syth i Adran 5)

#### 5. DYWEDWCH WRTHYM YNGLŶN Â'CH CYNNIG

- a) Disgrifiwch beth mae eich corff eisiau ei wneud yn eich cymuned?

- b) Sut mae eich cynnig yn cysylltu â blaenoriaethau a chynlluniau'r Cyngor?

- c) **Asedau ac Asedion** - A fyddwch chi angen man ar gyfer darparu eich cynnig? Os gwyddoch fod eich cynnig yn golygu gofyn am adeilad, neu ddarn o dir, sy'n eiddo i'r Cyngor, byddwch gystal â darparu cyfeiriad a'r cod post. Ar gyfer beth ydych chi am ddefnyddio'r man a pham?

Ch: **Gwasanaethau** - A yw eich cynnig yn golygu gofyn am un o wasanaethau presennol a chyfredol y Cyngor sy'n bodoli? Rhestrwch y gwasanaethau, a datgan p'un a ydych chi yn dymuno trosglwyddiad gwasanaeth cyfan, hynny yw ym mhob rhan o Rondda Cynon Taf gyfan, neu ddim ond trosglwyddiad mewn lleoliad daearyddol penodol yn unig.

- d) Byddwch gystal â rhestru enwau unrhyw **Swyddogion Cyngor** yr ydych wedi siarad â hwy am ac ynglŷn â'ch cynigion.

Dd) Byddwch gystal â rhestru enwau unrhyw **Gynghorwyr neu Aelodau Etholedig** yr ydych chi wedi siarad â hwy am ac ynglŷn â'ch cynigion.

## 6. DYWEDWCH WRTHYM AM EICH SYNIAD CYMUNEDOL

a) Pam ydych chi'n credu fod angen y cynnig yn eich cymuned chi?

b) Sut y bydd o fudd i bobl leol yn Rhondda Cynon Taf, a pha dystiolaeth sydd gennych i ategu hyn? Ydych chi wedi trafod eich syniad gyda phobl neu grwpiau eraill yn eich cymuned?

*(Mae hyn yn bwysig, oherwydd os ewch ymlaen i gam y Cynllun Busnes, bydd raid i chi ddangos fod gennych gefnogaeth y gymuned - NODER – Fel rhan o'r broses asesu, fe gaiff y Cyngor fynd at unrhyw un a enwir gennych isod.)*

c) Sut ydych chi'n anelu at gynhyrchu incwm, neu gyllido eich cynnig yn y gymuned?

## 7. GWNEUD CAIS AM Y GRONFA ALLUOGI CYMUNEDOL

a. A oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais i RhCT gyda'n Gilydd: Cronfa Alluogi Cymunedol? (Fe fydd dyfarniadau fel arfer yn ystod ac amrediad £1,000 i £10,000.)

Oes / Nac oes

b. Am dua pha faint fydddech chi yn dymuno gwneud cais?

c. Sut bydddech chi'n bwriadu defnyddio'r grant? Cofiwch ddarparu trosolwg cyffredinol o'r hyn yr ydych chi eisiau'r arian a chyllid iddo.

d. Cofiwch roi gwybod os ydych chi wedi ceisio cael gafael a derbyn ffynonellau ariannu a chyllido eraill, a beth oedd canlyniadau a deilliannau'r ceisiadau hyn.

## 8. SGILIAU A PHROFIAD Y CORFF NEU GRŴP

a) Pa sgiliau a phrofiad sydd gan eich corff neu grŵp ar hyn o bryd er mwyn cyflawni, a chynnal eich cynllun(iau)? Cofiwch ddarparu trosolwg cryno o'r sgiliau a'r profiadau sydd gan y canlynol:

Pwyllgor	
Cyflogeion	
Gwirfoddolwyr	

b) Ydych chi wedi adnabod a nodi unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu ychwanegol ar gyfer y canlynol?

Pwyllgor	
Cyflogeion	
Gwirfoddolwyr	

c) **Pa gymorth byddech chi'i hangen?** (Cofiwch dicio os ydych chi angen unrhyw un neu rai o'r cymorth canlynol)

a.	Cymorth Busnes
b.	Cyngor ar Ariannu
c.	Llywodraethu a Strwythurau Cyfreithiol
Ch.	Cyngor Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu neu Reoli Gwybodaeth
d	Arall (nodwch)

Os ydych eisoes yn derbyn cymorth i law gan unrhyw asiantaethau allanol, cofiwch restru'r rhain isod, a dweud wrthym pa gymorth y maent yn ei ddarparu.

## 9. DATGANIAD

**Mae'r Adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r brif ddolen gyswilt yn Adran 1 lofnodi a chynabod hynny.**

*Gallaf gadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod pob un o'r holl atebion ar y ffurflen gais hon yn wir ac yn gywir.*

*Rwyf yn cadarnhau hefyd fy mod wedi f'awdurdodi i weithredu ar ran y corff sy'n cyflwyno'r Mynegiad o Ddiddordeb hyn.*

*Rwyf yn cydnabod ac yn cydsynio i gyhoeddiad manylion fy mhrosiect yn Adran 5 a'u gwneud yn gyhoeddus drwy wefan y Cyngor, pe digwyddai i'm cynnig fynd rhagddo i gam y Cynllun Busnes.*

Llofnod \_\_\_\_\_

Enw (priflythrennau) \_\_\_\_\_

Swydd \_\_\_\_\_

Dyddiad \_\_\_\_\_

Rydyn ni'n ymrwmo i gadw eich data personol yn ddiogel ac i roi gwybod sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut rydyn ni'n cadw eich data yn breifat, a sut rydyn ni'n defnyddio eich data personol i gynnig gwasanaethau i chi, ewch i

[www.rctcbc.gov.uk/HysbysiadPreifatrwyddGwasanaeth](http://www.rctcbc.gov.uk/HysbysiadPreifatrwyddGwasanaeth) a'n tudalennau  
[www.rctcbc.gov.uk/diogeludata](http://www.rctcbc.gov.uk/diogeludata)